TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# NEBOSH  Rhithwir Ar-lein - Tystysgrif Gyffredinol Genedlaethol mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol



**Yn gryno**

Dechreuwch ar eich taith rheoli iechyd a diogelwch a gwireddu eich gwir botensial gyda Thystysgrif Gyffredinol NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol. Cwrs sylfaen cynhwysfawr yw hwn a gynlluniwyd i fod o fudd i bob dysgwr ym mhob cam o'u gyrfaoedd yn y maes iechyd a diogelwch.

Un o'r cymwysterau NEBOSH a dderbynnir y fwyaf gan gyflogwyr a chyrff proffesiynol mewn dros 180 o wledydd ledled y byd yw'r Dystysgrif Gyffredinol NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol. Mae 87% o gyflogwyr y DU yn mynnu cwrs Tystysgrif Gyffredinol NEBOSH fel gofyniad. Cydnabyddir gan lawer bod y Dystysgrif yn gwella sgiliau iechyd a diogelwch a rheolaeth amgylcheddol. Mae'n cefnogi rheolwyr, goruchwylwyr a staff i wneud gwelliannau ac ennill gwybodaeth iechyd a diogelwch gynaliadwy.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser rhad ac am ddim gyda dysgu hyblyg a chyfleus sy'n cyd-fynd â'u ffordd o fyw bresennol (yn amodol ar

gymhwysedd).

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...unrhyw un dros 19 oed sy'n byw yng Nghymru, mewn cyflogaeth ac yn ennill llai na £32,371 y flwyddyn.

...unrhyw un sydd angen dealltwriaeth ddyfnach o iechyd a diogelwch yn y gweithle er mwyn datblygu eu gyrfa.

**Cynnwys y cwrs**

Yn berthnasol i bob gweithle, mae Tystysgrif Gyffredinol Genedlaethol NEBOSH yn ddelfrydol ar gyfer rheolwyr, goruchwylwyr ac unrhyw un sydd â chyfrifoldebau rheoli iechyd a diogelwch. Mae hefyd yn berffaith i'r rheini sy'n cychwyn ar yrfa iechyd a diogelwch ac mae'n darparu carreg gamu i lwyddiant.

Mae llawer o sefydliadau mawreddog fel Thames Water, Kier a'r Gymdeithas Bêl-droed yn ymddiried ynddi, a gellir helpu i:

Leihau anafiadau a salwch yn y gweithle
Hybu llesiant gweithwyr
Dangos eich ymrwymiad i iechyd a diogelwch, a all ennill busnes

Uned NG1: Rheoli Iechyd a Diogelwch

Mae Rheoli Iechyd a Diogelwch NG1 yn canolbwyntio ar hanfodion craidd rheoli iechyd a diogelwch, gan danlinellu'r strategaethau a gynlluniwyd i weithredu system iechyd a diogelwch lwyddiannus yn y gweithle.

Uned NG2: Asesiad Risg

Modiwl Asesu Asesiadau Risg sydd yn canolbwyntio ar baratoi a chwblhau'r asesiad.

Mae'r cwrs yn cynnwys dau asesiad:

Uned NG1: Arholiad llyfr agored ar-lein

Uned NG2: Asesiad risg ymarferol yn seiliedig ar amgylchedd yn y gweithle.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Gofynion Mynediad**

Nid oes unrhyw ofynion ffurfiol, fodd bynnag mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall Saesneg at safon briodol er mwyn deall a chyfleu'r cysyniadau a gynhwysir yn y maes llafur.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cyflwynir y cwrs hwn ar ffurf ystafell ddosbarth rithwir. Mae ystafelloedd dosbarth rhithwir yn cyfateb i gyrsiau ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb, ond maent yn cael eu cyflwyno mewn amgylchedd ar-lein.

Rhithwir/Ystafell Ddosbarth: 10 diwrnod a gyflwynir fel 2 wythnos ar wahân.

Noder bod arholiadau NEBOSH yn rhedeg ar ddyddiadau penodol drwy gydol y flwyddyn yn unig.